[redacted]

**Ffurflen Gais Cydnabod Dysgu Blaenorol (RPL)**

Mae cydnabod Dysgu Blaenorol (y cyfeirir ato'n aml fel RPL) yn galluogi Prifysgolion i wneud eithriadau ar gyfer modiwlau neu feysydd pwnc y mae ymgeiswyr eisoes wedi'u 'cwblhau', naill ai drwy addysg ffurfiol neu drwy brofiad a datblygiad proffesiynol. Felly, ni fydd yn ofynnol i ymgeiswyr llwyddiannus ailadrodd na chwblhau'r dysgu y cydnabyddir eu bod eisoes wedi'i gyflawni.

Mae'r MA Addysg Genedlaethol (Cymru) wedi'i gynllunio i gydnabod y bydd gan lawer o fyfyrwyr gymwysterau a/neu brofiad proffesiynol eisoes sy'n golygu eu bod yn gallu dangos eu bod wedi cyflawni'r modiwlau sy'n cynnwys Blwyddyn 1 y rhaglen, fel nad oes angen iddynt ailadrodd cynnwys. **Ni fydd cydnabod Dysgu Blaenorol yn berthnasol i fodiwlau blwyddyn 2 na'r Traethawd Hir, y mae'n rhaid i bob myfyriwr ei gwblhau.**

O ganlyniad, gall ymgeiswyr sydd â **chymwysterau cydnabyddedig (e.e. TAR)** a/neu **brofiad proffesiynol sylweddol** wneud cais i'r rhain gael eu cydnabod yn ffurfiol i wrthbwyso rhai neu'r cyfan o'r 60 credyd o fodiwlau sy'n cynnwys blwyddyn 1 y rhaglen. Er mwyn bod yn gymwys i'w hystyried, rhaid i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth academaidd a/neu broffesiynol briodol eu bod yn bodloni'r Canlyniadau Dysgu ar gyfer y modiwlau, a restrir isod.

**Os oes gennych TAR gwerth 60 credyd** ar FHEQ Lefel 7 a gyflawnwyd fel arfer yn ystod y 5 mlynedd diwethaf, **<u>nid oes angen</u>** i chi fapio eich dysgu proffesiynol i'r Canlyniadau Dysgu isod, a **dylech gyflwyno'ch trawsgrifiad** (os nad oes gennych hyn, dylech allu gofyn am un newydd gan eich Prifysgol).

**Os oes gennych SAC heb TAR, cyflawnwyd eich TAR dros 5 mlynedd yn ôl, neu os yw eich TAR yn cynnwys llai na 60 credyd Lefel 7, bydd angen i chi gyflwyno'ch trawsgrifiad ar gyfer** unrhyw elfennau o gredyd yr hoffech eu cynnwys, **<u>a bydd angen i chi fapio</u>** eich dysgu proffesiynol a/neu

[redacted]

**Amdanoch chi**

**Cydnabod Credydau Rhannol a/neu Brofiad**

[redacted]

**Addysgeg ac Ymarfer (20 Credyd)**

**Modiwl Deilliannau Dysgu Bwriedig**

**Erbyn diwedd y modiwl dylai'r myfyriwr allu:**

1. Dangos yn feirniadol ddealltwriaeth o bwysigrwydd cefnogi a gwella cyflawniad pob dysgwr yn eu gofal.
2. Gwerthuso'n feirniadol effeithiolrwydd ystod o strategaethau dysgu ac addysgu drwy ddefnyddio tystiolaeth yn yr ystafell ddosbarth a thystiolaeth ymchwil
3. Dewis a chymhwyso'r strategaethau dysgu ac addysgu mwyaf priodol yn feirniadol er mwyn gwella cyrhaeddiad ƎǊÂǇ ƻ ŘŘȅǎƎǿȅǊǂ
4.

NATMARPLForm
V2.0 21.03.2022

[redacted]

[redacted]

**Erbyn diwedd y modiwl dylai'r myfyriwr allu:**

1. Dadansoddi a myfyrio'n feirniadol ar ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu.
2. Gwerthuso'n feirniadol ddiwylliant dysgu sy'n hyrwyddo Gwelliant parhaus i gefnogi'r cwricwlwm.
3. Cymhwyso modelau damcaniaethol sy'n ymwneud â chasglu a dadansoddi data'n feirniadol mewn perthynas â gwella ysgolion.
4. Myfyrio'n feirniadol ar nodweddion ymarfer cydweithredol a phroffesiynol.
5. Gwerthuso dulliau beirniadol o godi safonau a gwella addysgeg a fydd yn gwella ansawdd dysgu ac addysgu ar draws sefydliad.

[redacted]

| | |
|---|---|
| Ymarfer Cydweithredol a Phroffesiynol | ☐ |
| Arferion sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth | ☐ |
| Addysgeg ac Ymarfer | ☐ |